

Cartrefi Caerffili

Gaeaf, Rhifyn 7

Enillwyr y Gwobrau Trawsnewid Bywydau a Chymunedau 2015



Enillwyr a'r rhai ddaeth yn ail gyda'r Cyng Keith Reynolds, Jeff Cuthbert AC a Gwyn Price AC

Cynhaliwyd ein hail Gwobrau Trawsnewid Bywydau Chymunedau ar 28ain Medi. Cyflwynwyd y gwobrau, sy'n cydnabod yr arwyr di-glod sy'n gwneud gwahaniaeth i denantiaid a chymunedau lleol, fel rhan o ddigwyddiad dathlu yn Nhŷ Penallta, Ystrad Mynach a chyflwynwyd gan y Cyng Keith Reynolds, Arweinydd y cyngor.

Enillwyr y gwobrau ar y noson oedd: -

Gwobr Trawsffurfio Cymunedau – Grŵp

Enillydd - Tarragan

Ail - Preswylwyr Argoed ar gyfer Cymuned Ddiogelach

Gwobr Trawsffurfio Cymunedau – Unigolyn

Enillydd - Geraint Lewis

Gwobr Trawsnewid Bywydau – Grŵp

Enillydd - Canolfan Cyngor ar Bopeth Caerffili a Blaenau Gwent

Ail - Grŵp Prosiect Colled Synhwyraidd



Gwobr Trawsnewid Bywydau - Unigolyn

Enillydd - Lisa Evans

Ail - Michael Legg

Gwobr Cyflogai'r "Filtir Ychwanegol"

Enillydd - Dave Bowen

Ail - Mandy Betts, Jo Thomas, Sarah Parry

Cyflwynwyd Gwobr Llwyddiant Arbennig i June Thomas, Swyddog Rheoli Ystadau gyda thîm Cartrefi Caerffili.

Ers marwolaeth sydyn ei mab 15 oed, Jack, yn 2012, mae June wedi gweithio'n ddiflino yn codi arian ac yn ymgyrchu bod diffibrilwyr yn cael eu gosod ym mhob adeilad cyhoeddus.

Fe wnaeth Karen James, Rheolwraig yn Swyddfa Tai Parc Lansbury, hefyd gyflwyno sic i June am £1,580.00. Codwyd yr arian am 'Jack's Appeal' trwy werthu 'draenogod llyfrau' a wnaed gan Karen a'i merch.

Cafodd y gwobrau eu noddi gan ein partner cyflenwi ffynhonnell unigol, Robert Price Builders' Merchants ynghyd â'u cyflenwyr Seren Electrical, Nuaire, Quinn Radiators, Rixonway Kitchens a 3D flooring.



Karen James, June Thomas a'r Cyng Reynolds

Oes gan eich plentyn hawl i gael prydau ysgol am ddim?

Os ydych chi'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae'n golygu y gall eich plentyn mwynhau prydau blasus, iachus heb y biliau a'r ffwdan o wneud pecynnau bwyd.

Os ydych yn talu er mwyn i'ch plentyn gael prydau ysgol ar hyn o bryd, gallech arbed tua £580 y flwyddyn os ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Gall eich plentyn fod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio am Waith yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth Lloches dan Ran VI o'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad ydynt yn cael hawlio Credyd Treth Gwaith a bod eu hincwm blyneddol yn llai na £16,190
- Elfen Gwarant o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Treth Gwaith 'rhedeg ymlaen' - y taliad efallai bydd rhywun yn ei dderbyn am bedair wythnos arall ar ôl iddynt roi'r gorau i fod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol.



Mae cael mynediad at brydau ysgol am ddim hefyd yn eu galluogi i dderbyn grant dillad untro o £105 pan fydd y plentyn yn symud o'r ysgol gynradd i'w blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd.

Bydd ysgolion hefyd yn derbyn £1050 o gyllid ychwanegol ar gyfer pob plentyn sydd wedi cofrestru ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim. Rhaid i'r arian hwn cael ei dargedu yn uniongyrchol at ddisgyblion Prydau Ysgol am Ddim. Hawliwch ar-lein ar www.caerffili.gov.uk neu gael cyngor pellach trwy gysylltu â'r Gwasanaethau Arlwyio ar 01443 864055 neu anfonwch e-bost at arlwyio@caerffili.gov.uk

Gwella'r broses o ddyrannu tai cymdeithasol

Dywedon wrthyfch yn flaenorol ynghylch gwaith rydym yn ei wneud gyda chymdeithasau tai yn y fwrdeistref sirol, er mwyn symleiddio'r ffordd y mae pobl yn gwneud cais am dai cymdeithasol. Er mwyn gwneud hyn, bydd un pwynt ymgeisio (cofrestr dai cyffredin) yn cael ei gyflwyno ynghyd â set newydd o reolau i benderfynu sut mae pobl yn cael eu dewis ar gyfer eiddo (polisi dyrannu cyffredin).

Byddwn yn defnyddio system TG newydd ar gyfer y gofrestr dai cyffredin, a ddarperir gan Abritas - cwmni atebion tai

ar y we o'r DU. Bydd y system hon yn galluogi pobl i wneud cais a rheoli eu ceisiadau am dai ar-lein; bydd hyn hefyd yn gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon. Bydd cymorth ar gael i bobl nad oes ganddynt fynediad at y rhyngwrwyd, neu nad ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngwrwyd.

Disgwylir i'r system newydd yn cael ei roi ar waith erbyn haf 2016. Am fwy o wybodaeth ewch i dudalen cofrestr dai cyffredin ar wefan y cyngor, e-bostiwch taisectorpreifat@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01495 235216.

Cystadleuaeth Masgot


Rydym yn chwilio am bobl ifanc i ddylunio masgot ar gyfer Cartrefi Caerffili.

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cyflwyno dyluniad hyd yn hyn - rydym wedi ymestyn y gystadleuaeth, a bydd eich ceisiadau yn dal i gael eu cynnwys.

GWOBRAU YN CYNNWYS: Taleb gwerth £50 ar gyfer Sinema'r Maxime ar gyfer yr enillydd; anrhegion celf a chrefft y rhai sydd yn ail

I fod yn gymwys: rhaid i bobl ifanc fod yn 16 oed neu'n iau ac yn byw mewn eiddo Cartrefi Caerffili.

- Defnyddiwch eich dychymyg - gall fod yn unrhyw fath o anifail, cymeriad neu greadur, gallwch wneud llun, paentiad neu gludwaith
- Ychwanegwch nodiadau at eich dyluniad i egluro eich syniadau mor fanwl ag sy'n bosibl



- Dylai eich cymeriad cynrychioli'r hyn y mae Cartrefi Caerffili yn ei olygu i chi
- Rhowch enw i'ch masgot

Dylech anfon eich dyluniad cyflawn gyda'ch enw, cyfeiriad a rhif ffôn wedi'u dangos yn glir at:

Naill ai eich Swyddfa Dai Ardal neu Gymdogaeth neu'r Tim Tenantiaid a Chynhwysiad Cymunedol, Canolfan Busnes a Thechnoleg, Tredomen, CF82 7FN.

Y dyddiad cau am geisiadau yw Dydd Gwener 18fed Rhagfyr.

Beth mae'r Grŵp Gwelliannau ac Atgyweiriadau yn ei wneud?

Gan Dianne Moore, Dirprwy Tenant Arweiniol y grŵp



Sefydlwyd y Grŵp Gwelliannau ac Atgyweiriadau yn dilyn y bleidlais trosglwyddo stoc. Mae 13 o denantiaid yn y grŵp o bob rhan o'r fwrdeistref sirol ac, er sefydlwyd y grŵp, maent wedi bod yn gweithio'n galed ar eich rhan. Gyda'n gilydd rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Rydym wedi bod yn rhan o'r broses ddewis ar gyfer y Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC); dewis y lliwiau ar gyfer arwynebau cegin, unedau, lloriau a theils.
- Buom hefyd yn gweithio gyda rheolwyr er mwyn ychwanegu cornisiau a bod gwaith plastro ychwanegol yn cael ei wneud fel arfer safonol er mwyn gwella ceginau.
- Rydym hefyd wedi bod yn rhan yn y dewisiadau lliw ar gyfer ystafelloedd ymolchi a helpu i sicrhau bod unrhyw bibellau yn cael eu gorchuddio.
- Gweithiom er mwyn sicrhau bod brest simnai gyfan yn cael ei phlastro ar ôl cael gwared ar danau nwy.

Yn ogystal â gweithio ar SATC, rydym hefyd wedi gwneud llawer i wella'r gwasanaethau o atgyweiriadau ymateb. Cyflawniadau ein grŵp hyd yn hyn yw:

- Diwygio'r safon ailosod ar gyfer eiddo gwag
- Cyflwyno polisi ad-daliad newydd
- Diwygio a diweddarau cyfrifoldebau cynnal a chadw tenantiaid
- Cyfathrebu ar gyfer gwaith atgyweirio canolog wedi gwella
- Datblygu'r cynllun Person Hylaw
- Taflen a fideo lleithder ac anwedd
- System apwyntiadau ar gyfer arolygiadau atgyweirio
- Hysbysiad diogelwch ar ddefnyddio offer gwresogi cludadwy
- Diwygio'r Llawlyfr Tenantiaid
- Gwasanaeth Garddio

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rheolwyr i gael y canlyniadau gorau posibl ar gyfer tenantiaid.



A oes gennych mân dasgau y mae angen eu gwneud i baratoi eich cartref ar gyfer y Nadolig? Ydych chi'n 60 oed neu'n hŷn, neu oes gennych chi anabledd?

Yna gall ein Cynllun Person Hylaw fod yr union beth sydd angen arnoch!

Mae ein Cynllun Person Hylaw yn werth ardderchog am arian ac yn cael ei gynnal gan aelod o dîm cynnal a chadw y cyngor gyda'u hoffer eu hunain. Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth ar gyfer pethau fel:

- Ffitio traciau neu bolion lenni
- Rhoi llenni i fyny
- Trimio drysau mewnol
- Gosod silffoedd
- Cydosod dodrefn fflatpac
- Rhoi lluniau a drychau i fyny



AC AR BEN HYNNY - Rydym yn rhedeg ein cynnig arbennig o hyd o 50% o ddisgownt ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf!

Pris cyflwyniadol o ddim ond £10 yr awr!

Peidiwch ag anghofio mae'r pris am bob awr, nid am bob tasg, felly gallent gyflawni

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'ch swyddfa tai lleol.

Awgrymiadau i'ch helpu i'ch cadw chi a'ch teulu yn ddiogel y Nadolig hwn



Coginio

- Peidiwch byth â choginio gydag olew / braster os ydych chi wedi bod yn yfed alcohol.
- Os bydd badell olew neu fraster yn mynd ar dân.....
- Os yw'n ddiogel i'w wneud, diffoddwch y gwres, caewch ddrws y gegin a ffoniwch 999.
- Peidiwch BYTH â thaflu dŵr ar y tân.

Addurniadau Nadolig

- Peidiwch â rhoi addurniadau ar oleuadau neu wresogyddion, oherwydd gallant losgi'n hawdd.

- Peidiwch â gorrwytho socedi trydan. Diffoddwch a thynnwch y plwg ar oleuadau Nadolig bob tro cyn i chi fynd i'r gwely.
- Gwiriwch fod eich goleuadau coeden Nadolig yn dangos y Safon Diogelwch Prydeinig.
- Peidiwch â gosod canhwylau yn agos at eich coeden Nadolig neu ddeunyddiau sy'n gallu mynd ar dân yn hawdd.

Ysmygu

- Gwnewch yn siŵr na fydd deunyddiau smygu yn cael eu gadael i losgi heb oruchwyliaeth.
- Peidiwch byth ag ysmygu yn y gwely neu mewn cadair freichiau pan ydych yn teimlo'n gysglyd neu o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.
- Peidiwch byth ag ysmygu ger rhywun sydd ar ocsigen.

Os ydych yn byw mewn fflatiau gyda mannau cymunedol:

- Peidiwch â rhwystro'r mannau cymunedol.
- Peidiwch â gadael drysau tân ar agor mewn mannau cymunedol.
- Peidiwch â chrau llanast ar risiau, coridorau a phennau grisiau gydag eitemau personol neu bethau a all fynd ar dân yn hawdd.
- Peidiwch â chadw deunyddiau fflamadwy mewn cypyrddau sydd â chylchedau trydanol.

Rhentu Doeth Cymru

– Cyfraith newydd ar gyfer landlordiaid ac asiantau gosod

Daeth cyfreithiau newydd ar waith, o'r 23ain Tachwedd eleni, fel rhan o'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014 sy'n effeithio ar holl landlordiaid preifat ac asiantau gosod yng Nghymru.

Os ydych yn berchen neu'n rheoli tai yng Nghymru, a feddiannir gan rywun ar wahân i chi eich hun ac maent yn talu rhent, bydd y gyfraith newydd hon bron yn sicr o fod yn berthnasol i chi.

Mae'r gyfraith newydd yn golygu:

- Bydd angen i holl landlordiaid preifat gofrestru â Rhentu Doeth Cymru. Bydd hefyd angen iddynt gofrestru eu heiddo.
- Os yw landlord yn awyddus i reoli'r eiddo eu hunain, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn 'addas a phriodol' i ddal trwydded, a chael hyfforddiant.
- Fel arall, byddant yn gallu penodi asiant trwyddedig i reoli'r eiddo ar eu rhan.

Bydd landlordiaid sydd angen cofrestru, a landlordiaid ac asiantaethau sydd angen trwydded, yn gallu cofrestru a gwneud cais am drwydded o'r dyddiad hwn. Bydd ganddynt



12 mis o'r 23 Tachwedd 2015 er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.

Bydd Rhentu Doeth Cymru yn gwella delwedd y sector rhentu preifat, bydd o fudd i bobl sy'n rhentu eu cartref yn y sector a gwella arferion landlordiaid ac asiantau; gan helpu i fynd i'r afael â'r arfer gwael ymhlith rhai landlordiaid preifat.

Mae gwybodaeth bellach ar gael o www.rentsmart.gov.wales/ www.rhentudoeth.llyw.cymru lle rydych hefyd yn gallu tanysgrifio i dderbyn diweddariadau.

Polisi Ad-daliad

Yn ddiweddar, bûm yn cyflwyno Polisi Ad-daliad ar gyfer gwaith atgyweirio yn y cartref, sy'n ategu'r drefn sydd wedi bod ar waith ers blyneddau lawer. Pwrpas y polisi yw rhoi gwybod i denantiaid pan fyddent yn atebol am ad-daliad, cost y gwaith atgyweirio a sut y gall tenantiaid wneud cais am adolygiad o ad-daliad os ydynt yn credu bod yr ad-daliad yn anghywir. Gellir gweld y Polisi Ad-daliad llawn ar wefan y cyngor, neu gallwch ofyn i'ch swyddfa dai leol.

Nod y polisi yw rhoi'r wybodaeth ganlynol i denantiaid:

Diffiniadau Atgyweiriadau Ad-daladwy - pam y gall fod angen i chi wneud ad-daliad:

- **Esgeulustod** – Difrod y gellir wedi ei atal sydd wedi digwydd oherwydd bod y tenant wedi methu â chymryd y camau priodol neu drwy esgeulustod
- **Clirio eiddo** – Yn ystod tenantiaeth neu pan fydd tenantiaeth yn dod i ben
- **Difrod** – Wedi achosi gan weithredoedd y tenant, y cyn denant, teulu'r tenant, pobl sydd wedi eu gwahodd i'r eiddo neu gontractwr a gyflogir gan y tenant
- **Difrod damweiniol**
- **Difrod troseddol** – Lle mae'r tenant wedi adrodd bod y difrod i'r eiddo wedi digwydd o ganlyniad i naill ai ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol, ac yn methu â chymryd camau priodol

- **Dim mynediad** – Bydd y tenant yn gorfod ad-dalu cost apwyntiad sydd wedi methu pan fydd trefniadau wedi cael eu gwneud ymlaen llaw
- **Cam-drin y Gwasanaeth Brys** – Pan mae'n amlwg y gallai'r gwaith atgyweirio wedi aros tan y diwrnod gwaith canlynol
- **Cyfrifoldeb tenantiaid** – Atgyweiriadau y mae'n ofynnol i'r tenant i gyflawni o ganlyniad i newidiadau y maent wedi'u gwneud i'w cartref
- **Newidiadau gan denantiaid** – Pan nad ydynt yn cael eu hystyried i fod o safon ddigon uchel

Byddwch yn ymwybodol – gellir hawlio cost rhai ad-daliadau drwy bolisi yswiriant ac mae'r cyngor yn cynnig cynllun addas. Os ydych yn dymuno ystyried hyn cysylltwch â'n Hadran Yswiriant ar 01443 863523 am fwy o wybodaeth.

Y Broses Adolygu:

Mae'r polisi yn caniatáu tenantiaid i ofyn am adolygiad o'r ad-daliad os oes ganddynt reswm da dros anghytuno â phenderfyniad. Gall y rhesymau dros hyn fod: -

- Mae'r tenant o'r farn bod y gost yn anghywir
- Mae'r tenant o'r farn bod gennych amgylchiadau arbennig, nad ydynt wedi cael eu hasesu neu eu hystyried yn briodol

Ydych chi'n chwilio am ddodrefn ail-law? Neu hoffech chi roi eich celfi i rywun mewn angen? Yna, efallai y gallai The Furniture Revival helpu ...

Mae The Furniture Revival yn fenter gymdeithasol sydd wedi lleoli yn Rhymni. Ei nod yw lleihau ôl troed carbon y fwrdeistref sirol Caerffili drwy gynnal casgliadau am ddim o hen ddodrefn a nwyddau trydanol o ansawdd o gartrefi, wrth weithio tuag at ei nod gymdeithasol o leddfu tloedi drwy ailddosbarthu'r eitemau hyn i'r rhai sydd mewn angen.

Mae tîm The Furniture Revival, yn casglu, trwsio, glanhau ac aildddefnyddio eitemau lle eu bod yn addas at y diben a sicrhau eu bod ar gael i'w haildddefnyddio. Yn ei warws mae'n cynnig eitemau o tair ystafell darn, i cypyddau dillad, gwelyau a dodrefn ystafell wely arall i ddodrefn cegin ac offer tŷ megis ffyrnau, peiriannau golchi a oergell-rhewgelloedd.

Cynllun Repaint cymunedol sy'n canolbwyntio ar aildddefnyddio paent yn y gymuned leol, gyda phaent ar gael i unigolion yn y siop am £ 1 y litr ynghyd â rhoddion phaent am ddim i grwpiau ac elusennau cymunedol i gynorthwyo'r gymuned leol yn ei chyfarwydd. Mae The Furniture Revival yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gynnig gwasanaethau aildddefnyddio eraill megis teils carped ac offer TGCh ar gyfer cwsmeriaid.



Mae The Furniture Revival ar agor i bawb p'un a ydych yn gweithio, ar incwm isel neu'n derbyn budd-daliadau. Os ydych yn derbyn budd-daliadau efallai y bydd gostyngiad sylweddol drwy gynllun aelodaeth.

Os ydych yn dymuno darganfod mwy am drefnu casgliad neu am eitemau neu wasanaethau a gynigir ffoniwch The Furniture Revival ar 01685 846830 neu ewch i'r wefan www.thefurniturerevival.co.uk

Dewch i gwrdd â'ch Swyddogion Rheoli Ystadau

Cwm Rhymni Isaf



June Thomas, Huw Jordan a Kate Isaacs

	Ardaloedd a gwmpesir
Elizabeth Hurley Ffôn: 01443 873531 E-bost: hurlee@caerffili.gov.uk	Aberbargod Uchaf, Canol ac Isaf; Maes-y-cwmwr; Trefflip; Tir-y-berth; Ystrad Mynach
Ian Jones Ffôn: 01443 873543 E-bost: jonesi@caerffili.gov.uk	Abertyswg; Brithdir; Deri; Fochriw; Tredegar Newydd; Pontlotyn; Tirphil
June Thomas Ffôn: 01443 873530 E-bost: thomaj1@caerffili.gov.uk	Bargod; Cascade; Gelligaer; Maes Mabon; Nelson; Penpedairheol; Pen-y-bryn
Jayne Newman-Lomax Ffôn: 01443 873539 E-bost: newmaj@caerffili.gov.uk	Cefn Hengoed; Gilfach Isaf; Gilfach – Cam 1, 2 a 3; Hengoed
Huw Jordan Ffôn: 01443 873526 E-bost: jordah@caerffili.gov.uk	Llanbradach; Pen-yr-heol Uchaf ac Isaf; Pwll-y-pant; Thomasville; Tŷ Isaf; Tŷ Nant
Kate Isaacs Ffôn: 01443 873527 E-bost: isaack@caerffili.gov.uk	Gogledd Rhymni a De Rhymni

Parc Lansbury



Elizabeth Price a Debra Smythe

	Ardaloedd a gwmpesir
Debra Smythe Ffôn: 02920 860917 E-bost: smythd@caerffili.gov.uk	Abertridwr; Bryncenydd; Caerbragdy; Parch Churchill; Heol Claude; Trecastell; Nant-ddu; Senghenydd; Waunfach
Elizabeth Price Ffôn: 02920 860917 E-bost: pricee@caerffili.gov.uk	Parc Lansbury; Parc Porset

Y Cymoedd Dwyreiniol



Michelle Long, Mike Constance, Karen Rees,
Mike Spencer-Jenkins, Anne Moseley

	Ardaloedd a gwmpesir:
Mike Constance Ffôn: 01495 235446 E-bost: constm@caerffili.gov.uk	Argoed; Britannia; Trelyn; Markham; Llwynycelyn; Pengam; Trelyn Uchaf; Cefn Fforest; Fairview; Gerddi'r Twyn
Karen Rees Ffôn: 01495 235226 E-bost: reesk1@caerffili.gov.uk	Penllwyn Isaf ac Uchaf; Maes-y-ffynnon; Coed Duon
Mike Spencer-Jenkins Ffôn: 01495 235434 E-bost: spencm@caerffili.gov.uk	Tŷ Sign Uchaf ac Isaf; Rhisga
Michelle Long Ffôn: 01495 235001 E-bost: longm@caerffili.gov.uk	Pont-y-meistr; Croespenmaen; Oakdale; Gelligroes; Morrisville; Pont-y-waun; Treowen; Trinant; Wattsville; Ynys-ddu, Cwmfelin-fach
Anne Moseley Ffôn: 01495 235001 E-bost: longm@caerffili.gov.uk	Pentwyn-mawr; Abercarn; Crosskeys; Cwmcarn; Highmeadow; Llanfach; Trecelyn; Cefn-y-pant Uchaf ac Isaf; Persondy; Westend

Graig-y-rhaca



Justine Rees ac Amanda Redman

	Ardaloedd a gwmpesir:
Amanda Redman Ffôn: 02920 853053 E-bost: redmaa@caerffili.gov.uk	Bedwas; Machen; Rhydri; Trapwell; Trecenydd; Tretomos
Justine Rees Ffôn: 02920 853052 E-bost: reesj6@caerffili.gov.uk	Graig-y-rhaca

Cartrefi newydd yn y fwrdeistref sirol i helpu gyda mater o 'dreth ystafell wely'

Cyflwynwyd y rheolau sy'n cysylltu budd-dal tai i faint yr aelwyd ar 1 Ebrill at 2013. Ers hynny, mae'r cyngor wedi nodi bod angen cartrefi un a dwy ystafell wely fforddiadwy mewn rhai ardaloedd.

Yn 2013 a 2014, fe wnaeth Llywodraeth Cymru £40 miliwn o Grant Tai Cymdeithasol ychwanegol o dan gynllun o'r enw Rhaglen Eiddo Llai.

Anelwyd y rhaglen hon yn benodol at helpu i leihau effaith "Treth Ystafell Wely" Llywodraeth y DU. Cyflwynodd y tîm Strategaeth Tai ceisiadau am gyllid dan y rhaglen hon.

Yn ystod cam 1, cymeradwywyd cyllid o £1,583,095 er mwyn darparu 28 o gartrefi 1 a 2 ystafell wely ar ddau safle yn Threthomos a Chefn Fforest. Yn ystod cam 2, cymeradwywyd cyllid pellach o £1,565,828 er mwyn darparu 26 o gartrefi eraill, 1 a 2 ystafell wely yng nghanol Caerffili a Bargod.

Mae'r datblygiadau wedi cael eu darparu gan ein partneriaid Cymdeithasau Tai, United Welsh a'r Seren Group. Mae dyraniad y cartrefi yn cael eu blaenoriaethu gan Dîm Dyraniadau a Chyngor ar Dai'r Cyngor.

Yn ogystal â darparu tai fforddiadwy angenrheidiol yn yr ardal, mae'r datblygiadau yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys prentisiaethau, gyda'r cyfle i ddysgu sgiliau ymarferol gwerthfawr.



Dywedodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Dai, y Cyng. David Poole, "Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymroddedig i weithio mewn partneriaeth â chymdeithasau tai lleol i ddatblygu tai fforddiadwy o ansawdd da i bobl o fewn y fwrdeistref sirol. Rwy'n arbennig o falch i weld ymrwymiad Cymdeithasau i gyflogaeth a hyfforddiant lleol sy'n helpu i greu swyddi i bobl lleol."

Os ydych wedi eich effeithio gan dan feddiannaeth (Treth Ystafell Wely), cofrestrwch eich diddordeb datblygiadau ym Margod a Chaerffili gyda'n Hadran Dyraniadau a Chyngor ar Dai ar 01443 873610.

Cefnogwch eich banc bwyd lleol y Nadolig hwn



Bob dydd mae pobl ym mwrdeistref sirol Caerffili yn llwgu am nifer o resymau, o ddiswyddiad i dderbyn bil annisgwyl ar incwm isel.

Mae banciau bwyd yn darparu o leiaf 3 diwrnod o fwyd a chymorth argyfwng i bobl sy'n profi argyfwng.

Mae'r holl fwyd yn cael ei rhoi gan y cyhoedd a'i drefnu gan wirfoddolwyr.

Banciau bwyd ym mwrdeistref sirol Caerffili:

- **Banc Bwyd Coed Duon a'r Cylch** Oasis Christian Centre, Heol y Bryn, Cefn Fforest, Coed Duon; Ffôn: 07817 238608
- **Banc Bwyd Cwm Rhymni** Eglwys Sant Dignat, Teras yr Eglwys, Tredegar Newydd; Ffôn: 07432 322906
- **Banc Bwyd Rhisga** Byddin yr Iachawdwriaeth, 66a Y Stryd Fasnachol, Rhisga; Ffôn: 07599 9733112
- **Pontio'r Bwlch (Banc Bwyd Caerffili)** Eglwys Elim, Caerffili; Ffôn: 02920 868593

Mae banciau bwyd yn dibynnu ar gefnogaeth cymunedau lleol, felly cofiwch roi i'ch Banc Bwyd y Nadolig hwn.